



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad
Heol Hamadryad
Tre-biwt
Caerdydd
CF10 5UY**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad yn Nhre-biwt yn awdurdod lleol Caerdydd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol a chyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Agorwyd yr ysgol ar safle dros dro ym mis Medi 2016 fel dosbarth cychwynnol gyda 17 o ddisgyblion, cyn symud i adeilad newydd yn nhymor y gwanwyn 2019. Mae 174 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 66 oed meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Dim ond un dosbarth sydd yng nghyfnod allweddol 2, sef Blwyddyn 3.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu un o'r ardaloedd mwyaf amlieithog ac amlethnig yng Nghymru. Mae'r disgyblion yn cynrychioli 15 o wahanol grwpiau ethnig. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn siarad 21 o ieithoedd gwahanol gan gynnwys Cymraeg a Saesneg.

Ar gyfartaledd dros dair blynedd, mae gan ychydig islaw 9% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 13% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Daw llawer o ddisgyblion o gartrefi Saesneg ond mae tua 11% ohonynt yn siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi 2016. Nid yw'r ysgol wedi cael arolygiad craidd o'r blaen gan ei bod yn ysgol newydd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol, lle roddir blaenoriaeth uchel i ddatblygu parch a lles disgyblion. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n aeddfed, ac mae'r berthynas rhyngddynt a'r staff yn ardderchog. Mae ethos Cymreig amlwg yn bodoli yn yr ysgol, gyda'r staff yn annog y disgyblion i wneud defnydd cyson o'r Gymraeg ymhob agwedd ohoni. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, gan deimlo bod yr iaith yn rhan bwysig iawn o'u cymuned amlieithog. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad cadarn i'r ysgol, gan hybu pwysigrwydd safonau uchel, cydweithio ac agweddau hynod o gadarnhaol at y Gymraeg. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol er mwyn darparu profiadau gwerthfawr i bob disgybl. Mae rhieni'n cefnogi holl weithgareddau'r ysgol yn llwyddiannus ac yn cyfrannu'n effeithiol at greu amgylchedd teuluol a chroesawgar o fewn cymuned amlddiwylliannol.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau yn feddylgar i gynorthwyo'r dysgu ac i sicrhau bod y disgyblion yn caffael yr iaith Gymraeg yn gynnar iawn. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae'r staff yn sefydlu perthynas waith arbennig sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn a gwneir defnydd effeithiol o ymweliadau ac ymwelwyr i atgyfnerthu'r gweithgareddau dysgu. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a profiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yn darparu her briodol i'r disgyblion mwyaf abl i gyfawni hyd eithaf eu gallu
- A2 Cryfhau rôl y disgyblion wrth fynegi barn yn uniongyrchol ar weithdrefnau ehangach yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â sefydlu ethos Cymreig hynod lwyddiannus a balchder disgyblion yn eu Cymreictod mewn cymuned amlieithog, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Ychydig o'r disgyblion sy'n cychwyn yr ysgol yn medru siarad Cymraeg. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae bron pob un yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg hynod effeithiol ac yn gwneud cynnydd da iawn. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae medrau siarad a gwranddo bron pob un o'r disgyblion yn hynod gadarn ar draws yr ysgol. Maent yn gwranddo'n astud ar oedolion ac yn ymateb yn bwrpasol i gwestiynau. Er enghraifft, yn y Meithrin, maent yn ymuno'n dda ag oedolion wrth werthu llysiâu a ffrwythau yn yr archfarchnad. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron pob un yn cyfathrebu'n naturiol gydag oedolion a'u cyfoedion gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa yn llwyddiannus iawn. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus ac yn awyddus i gyflwyno gwybodaeth a datblygu eu syniadau'n llwyddiannus wrth greu ffilm ar greaduriaid yn yr acwariwm, er enghraifft. Ym Mlwyddyn 3, mae bron pob un yn gwranddo ar ei gilydd gyda chwarteisi. Maent yn siarad yn hyderus ac yn groiw yn y Gymraeg a Saesneg, er enghraifft wrth drafod nodweddion atyniadau Bae Caerdydd ar gyfer ymwelydd o America.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn effeithiol. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio'u hymwybyddiaeth ffonolegol yn llwyddiannus i ddarllen testunau yn annibynnol yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am greadur o'r cefnfor. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion llyfrau fel awdur, broliant a theitl ac maent yn mynegi barn yn syml ar y cynnwys, gan roi rhesymau dilys dros eu safbwyntiau. Ym Mlwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen Cymraeg. Maent yn darllen ystod o destunau â chywirdeb, rhuglder a phwyslais cynyddol ac yn trafod eu mwynhad a'u diffyg hoffter o'r chwedlau Cantre'r Gwaelod a Gelert yn llwyddiannus. Mae medrau darllen Saesneg disgyblion Blwyddyn 3 yn datblygu'n briodol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn cofnodi mewn amrywiaeth addas o weithgareddau, er enghraifft wrth ysgrifennu brawddegau i ddisgrifio cymeriadau Gwlad y Rwla. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio prif nodweddion gwahanol ffurfiau o ysgrifennu yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr gan Branwen at Bendigeidfran ac wrth ysgrifennu adroddiad dwyn i gof ar eu taith i acwariwm Bryste. Mae rhan fwyaf y disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith gan baragraffu ac atalnodi'n gynyddol gywir. Maent yn defnyddio ystod briodol o eirfa er mwyn cyfoethogi eu gwaith, er enghraifft ansoddeiriau diddorol i ddisgrifio Cawr Carneddau. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu mewn amrywiaeth addas o ffurfiau ac yn defnyddio iaith bwrpasol, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad ffeithiol i ddenu ymwelwyr i Fae Caerdydd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Mae eu dealltwriaeth o ffeithiau rhif a gwerth lle yn gadarn. Er enghraifft, mae disgyblion y Dosbarth Derbyn yn llwyddo i ddyblu rhifau hyd at 10 yn hyderus yng nghyd-destun Gwlad y Rwla. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn

datblygu dealltwriaeth dda o ddata, er enghraifft wrth ddioli creaduriaid y môr ar ddiagram Carroll. Mae rhan fwyaf y disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Maent yn adnabod cyfeiriadau pedwar pwynt ar gwmpawd ac yn deall troadau clocwedd a gwrthglocwedd yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu gwaith rhifedd yn gadarn, er enghraifft wrth gymharu'r tymheredd mewn lleoliadau amrywiol dros gyfnod o wythnos. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni gwaith ar y lefel briodol wrth gwblhau ystod o dasgau rhifedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos hyder wrth drafod gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn hyderus, er enghraifft wrth ysgrifennu brawddegau am y tywydd. Maent hefyd yn rheoli tegau symudol yn effeithiol ac yn ffilmio eu cyfoedion yn llwyddiannus wrth gyflwyno rhagolygon y tywydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn fedrus ac yn annibynnol mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft wrth greu taflen wybodaeth ar atyniadau amrywiol.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn ardderchog yn y dosbarth. Maent yn symud o amgylch yr ysgol yn gyson bwrpasol, er enghraifft wrth gerdded gyda'u dwylo y tu ôl i'w cefn i atgyfnerthu strategaethau'r cynllun adferol. Mae bron pob un yn hynod gwrtais ac yn barod iawn i sgwrsio gyda'i gilydd a chydag oedolion, gan esbonio'u gwaith mewn modd aeddfed a deallus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod pryderon emosiynol a chymdeithasol yn hyderus trwy nodi sut maent yn teimlo ar siartiau dyddiol o fewn eu dosbarthiadau.

Mae rhyngberthynas waith ardderchog yn bodoli rhwng y disgyblion ac maent yn barchus iawn tuag at y staff. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol iawn at yr awyrgylch ddysgu fyrlymus sy'n bodoli. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn canolbwyntio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn deall ac yn datblygu strategaethau effeithiol i'w helpu i ddyfalbarhau a goresgyn anawsterau. Maent yn dechrau derbyn ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau, er enghraifft trwy ddefnyddio strategaethau penodol sydd newydd gael eu sefydlu. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwella ac yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth gwblhau eu tasgau dyddiol. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn esbonio agweddau penodol i'w datblygu gyda'u medrau ysgrifennu ffeithiol yn Saesneg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol ac effeithiol fel unigolion, mewn grwpiau bychain a chyda phartneriaid. Maent yn gwneud dewisiadau annibynnol, yn cefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac uchelgeisiol sy'n dechrau cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn efelychu nodweddion eu cymeriad 'Mo Mentrus', trwy ddewis defnyddio cyfrifiaduron llechen i recordio rhagolygon y tywydd yn yr ardal allanol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â bwyta ac yfed, eu gweithgarwch corfforol a'u lles emosiynol, gan gynnwys sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Maent yn trafod yn aeddfed bwysigrwydd diet cytbwys

a'r angen i gael cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fwyd i fod yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o effaith gadarnhaol ymarfer corff ar eu hiechyd. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae disgyblion yn defnyddio eu sgwter, beiciau a'r bws cerdded i deithio yn gynaliadwy i'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at feddylgarwch cadarnhaol rhan fwyaf y disgyblion ac yn eu paratoi'n bwrpasol at eu dysgu yn yr ysgol.

Mae bron pob un disgybl yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn falch i fod yn rhan o'i chymuned amlddiwylliannol. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr egwyddorol gwybodus, gan efelychu nodweddion eu cymeriad, 'Elliw Egwyddorol'. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chynghor os ydynt yn gofidio, ac maent yn teimlo'n gysurus i wneud hynny.

Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain yn hyderus. Er enghraifft, mae Comisiynwyr y Gymraeg yn hyfforddi eraill i chwarae gemau'r iard yn y Gymraeg ac i annog eu cyfoedion i ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol. Mae hyn yn cyfrannu'n arbennig o effeithiol at sefydlu agweddau cadarnhaol bron pob un disgybl tuag at eu Cymreictod.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Un o gryfderau'r ysgol yw'r amgylchedd Gymreig gadarn sy'n bodoli ynddi, sy'n annog disgyblion, o bob cefndir, i ymfalchïo yn y Gymraeg. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau yn feddylgar i gynorthwyo'r dysgu ac i sicrhau bod y disgyblion yn caffael yr iaith Gymraeg yn gynnar iawn. Er enghraifft, mae pob dosbarth yn y cyfnod sylfaen yn cael 'Caffi Clonc' yn ystod amser byrfwyd i gyflwyno patrwm ieithyddol yr wythnos, ac i annog y disgyblion i sgwrsio'n gymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion, athrawon ac ymwelwyr. Mae'r holl staff yn fodolau iaith medrus ac yn hyrwyddo'r defnydd naturiol o'r Gymraeg gan bob disgybl o oedran cynnar iawn. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd creadigol i'r disgyblion ddysgu am Gymru, er enghraifft trwy wahodd Kizzy Crawford i ganu'n y Gymraeg a thrwy drefnu ymweliadau cyson gan bobl fel y Comisiynydd iaith. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog ac amlieithog hyderus a chymwys sy'n falch iawn o'u Cymreictod.

Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae'r staff yn sefydlu perthynas waith arbennig sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel iawn ac mae'r disgyblion i gyd yn deall hyn. Mae cyffro amlwg i'r gwersi ac mae'r gweithgareddau'n llifo'n effeithiol. Cyfoethogir y cwricwlwm yn llwyddiannus drwy'r defnydd cyson a wneir o ymweliadau. Er enghraifft, mae disgyblion Bwyddyn 2 yn ymweld â'r acwariwm ym Mryste a disgyblion Blwyddyn 3 yn mynd i Gastell Henllys i ddysgu am fywyd y Celtiaid.

Mae gan staff ymwybyddiaeth gref o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn sicrhau bod cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau a gyflwynir o dan arweiniad staff, sef 'Ar yr Ynys', a heriau sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion i 'Hwyllo'r Don' wrth weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Mae cynllunio meddylgar y staff o ran gwireddu gweledigaeth yr ysgol – 'Angor cadarn cyn hwyllo'r don' yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddir y strategaeth 'Captan Ari Allnod a'i fap trysor' ar gyfer cyflwyno

nodau'r wers a dull 'Pili Parot' ar gyfer cynnig cyfleoedd i'r disgyblion hunanasesu a myfyrio ar eu dysgu. O ganlyniad, mae medrau dysgu annibynnol llawer o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r profiadau amrywiol a ddarperir yn hybu medrau creadigol y disgyblion yn dda, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 1 arbrofi ag ystod o offerynnau cerdd i gyfansoddi a pherfformio darn o gerddoriaeth am y tywydd. Mae hyn yn meithrin parch a hunanddisgyblaeth ymysg y disgyblion tuag at eu gwaith yn llwyddiannus. Mae dulliau effeithiol y staff o gynllunio yn eu paratoi'n drwyadl ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru a datblygu disgyblion yn unigolion uchelgeisiol, hyderus a mentrus.

Mae'r athrawon yn defnyddio sbardun yn llwyddiannus i ysgogi'r disgyblion. Er enghraifft, cafwyd neges ddigidol gan Iolo Williams yn ddiweddar yn gofyn i ddisgyblion Blwyddyn 2 gyflwyno gwybodaeth am greadur unigryw yn y cefnfor. Mae'r profiadau dysgu hyn yn galluogi llawer o'r disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus yn drawsgwricwlaidd. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion bob amser yn herio'r mwyaf abl i gyflawni yn unol â'u gallu.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar ysgogol ac amserol i'r disgyblion, sy'n eu galluogi i wella eu dysgu yn llwyddiannus. Maent yn rhannu amcanion eglur ar gyfer gwersi ac yn defnyddio amrywiol dechnegau holi effeithiol i ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion. Mae'r staff yn holi'n dreiddgar, sy'n annog disgyblion i ymestyn eu hymatebion a dyfnhau eu dealltwriaeth yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant, o ran tasgau rhifedd, yn ddigon penodol i herio'r disgyblion mwy abl. Ym Mlwyddyn 3, mae'r disgyblion yn dechrau cydweithio i bennu eu meini prawf llwyddiant ar gyfer ysgrifennu adroddiad perswadiol ffeithiol eu hunain. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o nodweddion ystod o ffurfiau ysgrifennu.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, fyrlymus a chynhwysol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gartrefol. Mae dull annwyl y staff o fodelu parch a chwarteisi yn nodwedd gref, ac yn creu ymdeimlad gofalgarn a hapus sy'n cael ei adlewyrchu yn ymddygiad ardderchog y disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn anelu am y clod mwyaf o fewn yr ysgol, sef cyfeiriad at y gair 'Bendibwmerang'. Mae'r ysgol yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog a'u bod yn datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol a hyderus. Mae staff yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn llwyddiannus trwy addysgu'r disgyblion am wahanol ddiwylliannau. Maent yn darparu ystod effeithiol o gyfnodau pwrpasol ac ysbrydol i'r disgyblion ddysgu am Gristnogaeth a chrefyddau eraill a myfyrio'n benodol ar wersi moesol. Er enghraifft, mae staff yn hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn i gymuned Hamadryad gan ddefnyddio arwyddair yr ysgol i feithrin gwerthoedd fel cyd-fyw, cydweithio a helpu eraill. Mae cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion rannu'r weledigaeth hon mewn Cynhadledd Comisiynwyr Iaith Ryngwladol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd er enghraifft, ac wrth ymweld â'r Mosg yn rheolaidd. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn trafod nodweddion crefyddau gwahanol yn sensitif a gwybodus. Cynhelir sesiynau myfyrio yn rheolaidd sy'n hyrwyddo lles a datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad disgyblion yn effeithiol wrth ystyried cynnydd grwpiau penodol. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn drwyadl ac yn effeithiol. Mae'r staff yn adnabod eu hanghenion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth werthfawr iddynt yn llwyddiannus. Mae'r staff ategol yn cyfrannu'n sylweddol at y ddarpariaeth gynhwysol hon. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cryf dros amser. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r cysylltiadau cadarn sy'n bodoli gydag asiantaethau arbenigol allanol. Er enghraifft, trefnwyd hyfforddiant ar y dull adferol i arfogi staff i ddatrys unrhyw broblemau sy'n ymwneud ag agweddau negyddol ymhlith disgyblion ac i'w helpu i ddelio ag unrhyw heriau emosiynol.

Elfen gref o'r ysgol yw'r berthynas waith werthfawr a llwyddiannus sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni yn rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau i annog rhieni i gefnogi eu plant yn eu dysgu, er enghraifft wrth esbonio iddynt yr hyn mae cael addysg cyfrwng Gymraeg yn ei olygu i'w plant yn yr hir dymor. Mae'r ysgol yn gwrando ar safbwyntiau rhieni ac yn ymateb yn gefnogol i'w syniadau. Cefnogir hyn yn llwyddiannus gan y llywodraethwyr a'r rhieni sy'n medru'r Gymraeg wrth gynnal sesiynau dysgu dros wyliau'r haf a hyrwyddo'r Gymraeg mewn siop leol. O ganlyniad, mae ymdeimlad o Gymreictod yn treiddio trwy holl fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo Cymreictod y disgyblion ymhellach trwy gystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau a datblygu cysylltiadau gwerthfawr gydag S4C a beirdd Cymru.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r cwricwlwm, gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau allgyrsiol, fel Clwb Amlchwaraeon yr Urdd, yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn deall manteision ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae gweledigaeth yr ysgol, wrth hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio i'r ysgol, yn hynod lwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd byw yn iach, ac mae llawer yn defnyddio'u gwybodaeth am hyn i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion aelodau'r teulu.

Mae cyfleoedd i gynnwys llais y disgybl ym mywyd yr ysgol yn datblygu'n effeithiol. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion a'u rhieni rannu syniadau ac i gyfrannu at y profiadau dysgu drwy gyd-drafod thema'r tymor. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ymgymryd â rolau arweiniol. Er enghraifft, mae'r 'Comisiynwyr Cymraeg' yn dysgu gemau iard i'r disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn holl fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch o'u Cymreictod. Mae'r cyngor ysgol, sef y senedd, ond wedi ei sefydlu yn ddiweddar. O ganlyniad, nid yw rôl y disgyblion o ran mynegi barn am gyfeiriad strategol yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigon cadarn.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn a chilir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar feithrin parch a hybu Cymreictod a lles disgyblion. Dros gyfnod byr, mae hi wedi rhannu hyn gyda'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn hynod llwyddiannus. O ganlyniad, mae hi wedi sefydlu ethos teuluol a chroesawgar ble mae pawb yn falch o berthyn i Ysgol Hamadryad.

Mae aelodau'r uwch dîm rheoli ac aelodau eraill y staff yn cydweithio'n hwylus, yn cyflawni eu rolau yn effeithiol ac yn cefnogi'r pennaeth yn fyrlymus. Mae arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r staff yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft wrth ddechrau paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru a chyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae'r ffocws parhaus ar hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn llwyddiannus ac yn datblygu balchder y disgyblion tuag at eu hunaniaeth a'u treftadaeth.

Mae'r pennaeth wedi gweithio'n ddiwyd wrth lwyddo i uno staff sy'n cynyddu'n flynyddol, a sefydlu cysondeb yn y strategaethau addysgu ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at yr ethos teuluol o gydweithio ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r gymuned ddysgu effeithiol sy'n bodoli yn llwyddo i ymgynhyrdd at ei hamcanion uchelgeisiol ar gyfer cynnig darpariaeth sy'n datblygu disgyblion hyderus, mentrus a llwyddiannus. Mae hyn yn adlewyrchu arwyddair yr ysgol, sef 'Angor cadarn cyn hwylio'r don' i blant yr ardal mewn awyrgylch gynnes, gynhaliol ac effeithiol.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau'r ysgol ac ar wella cyflawniad disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth sicrhau bod disgyblion ifainc yn mwynhau'r iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio i drafod gwahanol destunau gydag aeddfedrwydd.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant llwyddiannus o hunanwerthuso parhaus sy'n canolbwyntio'n fanwl ar ddeilliannau disgyblion, ac wedi dechrau gwreiddio'n effeithiol ym mywyd pob dydd yr ysgol. Mae systemau cadarn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad gofalus o ddeilliannau'r disgyblion, cyfarfodydd cynnydd, craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi'n rheolaidd. Mae'r holl athrawon yn dechrau cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i'r afael â rhan fwyaf o'r gwelliannau'n gyflym a llwyddiannus.

Nodwedd gadarn ar yr arweinyddiaeth yw'r cyfleoedd pwrpasol sy'n galluogi staff ar bob lefel i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr iddynt arsylwi mewn sefydliadau eraill. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol y staff yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r ysgol yn cofleidio gwaith ysgol i ysgol, o ran cysoni'r dull adferol yn ysgolion y clwstwr, er enghraifft. Mae'r cydlynnydd anghenion addysgol arbennig yn rhannu ei harbenigedd o fewn y clwstwr hefyd.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau'r ysgol ar safonau a lles y disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwytbodol ac yn cynnal ymweliadau addas i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a lles y disgyblion. O ganlyniad, maent wedi trefnu clwb darllen dros wyliau'r haf i'r disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg a datblygu pamffled ar gryfderau addysg ddwyieithog i rieni newydd. Maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn briodol ac yn helpu i osod arweiniad a strategaethau clir ar gyfer ei datblygu ymhellach fel gymuned ddysgu llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun gwella ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau'r rheini sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau lles ac agweddau disgyblion tuag at eu gwaith.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfennau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2020